

## **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

**Deddf Safonau Gofal 2000**

**Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011**

### **Hysbysiad o Ddiffyg Cydymffurfio**

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r meysydd lle nad yw eich gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'n ofynnol i chi, y person cofrestredig, gymryd camau i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau o fewn yr amserlenni a nodwyd.

**Mae cyflwyno'r hysbysiad hwn yn fater difrifol. Os na lwyddir i gydymffurfio, bydd AGIC yn gweithredu yn unol â'i pholisi gorfodi.**

**Ysbyty Cefn Carnau**  
Lôn Cefn Carnau  
Draenen Pen-y-graig  
CAERFFILI  
CF83 1LX

Dyddiad yr Hysbysiad o Ddiffyg Cydymffurfio – 14 Awst 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau gwahanol neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru,  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
MERTHYR TUDFUL  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Manylion y Darparwr Cofrestredig a'r arolygiad

<b>Enw'r Lleoliad</b>	Ysbyty Annibynnol Cefn Carnau, Lôn Cefn Carnau, Draenen Pen-y-graig, Caerffili, CF83 1LX
<b>Rhif ffôn cyswllt</b>	029 2088 3345
<b>Darparwr Cofrestredig</b>	Priory Group Ltd, 80 Hammersmith Road, Llundain, W14 8UD
<b>Y Rheolwr Cofrestredig</b>	Rheolwr dros dro yn y swydd
<b>Nifer y gwelyau</b>	22
<b>Categori</b>	Iechyd Meddwl
<b>Dyddiad yr arolygiad</b>	11–13 Awst 2015
<b>Arolygwyr</b>	John Powell Sarah Martin

## Meysydd o Ddiffyg Cydymffurfio

### **Nid yw'r darparwr cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 20 (1) (a) a (b) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 mewn perthynas â staffio.**

Cynhaliwyd arolygiad gyda'r nos ar 11 Awst, a thrwy'r dydd ar 12 ac 13 Awst 2015. Wrth gyrraedd Ysbyty Cefn Carnau, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw nyrsys cofrestredig sy'n aelodau parhaol o'r staff ar ddyletswydd. Roedd y tair ward yn Ysbyty Cefn Carnau yn cael eu rheoli gan ddwy nyrs asiantaeth ac un nyrs banc.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod o leiaf un nyrs gofrestrdedig sy'n aelod parhaol o'r staff ar ddyletswydd yn yr ysbyty.

### **Nid yw'r darparwr cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 21 (1) (a) a 21 (2) (b) a (d) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 mewn perthynas ag addasrwydd gweithwyr.**

Yn ystod trafodaethau ag un aelod o staff asiantaeth, roedd yn amlwg nad oedd gan yr unigolyn y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i weithio yn yr ysbyty. Yn benodol, nid oedd y nyrs asiantaeth wedi diweddarau ei hyfforddiant ar ataliaeth, ac nid oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant ar Reoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol, sef y model dewisol a ddefnyddir yn yr ysbyty, ac nid oedd yn gallu dweud wrth yr arolygwyr beth oedd Adran 37/41.

Mae'n hanfodol bod gan unrhyw staff asiantaeth sy'n gweithio yn yr ysbyty y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer y grŵp o gleifion er mwyn sicrhau bod gofal o ansawdd a gofal digonol yn cael ei ddarparu.

### **Nid yw'r darparwr cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 21 (1) (a) a (b) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 mewn perthynas â sgiliau a phrofiad.**

Cynhaliwyd arolygiad ar 11, 12 ac 13 Awst 2015, ac archwiliwyd y dogfennau canlynol:

- Ffeil yr asiantaeth

Nid oedd y ffeil yn cynnwys copi o CV na gwybodaeth gynefino'r ddau aelod o staff asiantaeth oedd ar ddyletswydd. O ganlyniad, roedd yn amhosibl cadarnhau'r sgiliau, y profiad a'r wybodaeth oedd gan y ddau aelod o staff asiantaeth er mwyn gofalu am y grŵp cleifion.

Mae effaith diffyg gwybodaeth am staff asiantaeth yn sylweddol. Nid oedd modd mesur y lefelau sgiliau a chymhwysedd, ac o ganlyniad gallai hyn gael effaith sylweddol ar yr ysbyty o ran ansawdd gwasanaeth, diogelwch, a chysondeb o ran gofal. Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gan y staff asiantaeth a'r staff banc y sgiliau a'r profiad hanfodol i weithio yn yr ysbyty.

**Cynllun Gweithredu AGIC ar gyfer Meysydd o Ddiffyg Cydymffurfio**

**Ysbyty:** Priory Hospital Cefn Carnau

**Dyddiad yr arolygiad:** 11–13 Awst 2015

**Dyddiad y Cynllun Gweithredu:** 17 Awst 2015

**Cyfarwyddwr yr Ysbyty:** Vicky O’Dea

**Graddfa: coch, oren a gwyrdd**  
**Gwyrdd = Wedi'i gwblhau**  
**Oren = Ar waith**  
**Coch = Cam gweithredu dros amserlen i'w gwblhau**

Canlyniad/ Safon	Sylwadau Ychwanegol/ Tystiolaeth	Cam Gweithredu	Cynnydd Hyd yn Hyn	Gan bwy	Coch, Oren, Gwyrdd	Amserlen ar gyfer Cwblhau	Dyddiad y'i cwbhawyd
<b>Rheoliad 20</b>							
- 20 (1) (a) a (b)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod o leiaf un aelod parhaol o'r tîm nyrsio ar ddyletswydd bob amser.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rotâu sifft y wardiau i'w cynllunio 4 wythnos ymlaen llaw</li> <li>Y cyfarfodydd wythnosol rhwng y rheolwr gwasanaethau clinigol a'r rheolwyr ward i edrych ymlaen ar y rotâu ar gyfer pob wythnos</li> <li>Nodi'n glir ar y rota y person â gofal ym mhob ward a'r person â gofal cyffredinol dros yr ysbyty bob nos (cydgysylltydd sifft)</li> <li>Bydd hyn yn cael ei fonitro bob wythnos yn ystod y Cyfarfod Briffio Tactegol, a fydd yn cynnwys rheolwyr y wardiau, y rheolwr gwasanaethau clinigol, a chyfarwyddwr yr ysbyty er</li> </ul>	Ail-sefydlwyd y broses ar 13 Awst 2015, a bydd yn cael ei chynnal yn barhaus a'i chymeradwyo gan gyfarwyddwr yr ysbyty bob dydd lau.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol  Cyfarwyddwr yr ysbyty		Ar unwaith ac yn barhaus	13.08.15

Canlyniad/ Safon	Sylwadau Ychwanegol/ Tystiolaeth	Cam Gweithredu	Cynnydd Hyd yn Hyn	Gan bwy	Coch, Oren, Gwyrdd	Amserlen ar gyfer Cwblhau	Dyddiad y'i cwblhawyd
		mwyn sicrhau bod unrhyw amgylchiadau nas rhagwelwyd yn cael eu hystyried.					
<b>Rheoliad 20 a 21</b>							
20 (1) (a) a 21 (2) (b) a (d)	Mae'n hanfodol bod gan unrhyw staff asiantaeth sy'n gweithio yn yr ysbyty y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer y grŵp o gleifion er mwyn sicrhau bod gofal o ansawdd a gofal digonol yn cael ei ddarparu.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod pob asiantaeth a ddefnyddir yn gwybod bod yn rhaid i'r asiantaeth anfon ffacs i'r ysbyty gyda chrynodeb o CV y nyrs a fydd wedi'i neilltuo i fynychu, a dylai hwn gynnwys llun, crynodeb o brofiadau, a'r hyfforddiant a dderbyniwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.</li> <li>Y nyrs â gofal dros yr ysbyty yn ystod y nos i dderbyn copïau o bob crynodeb o CV a dderbyniwyd. Yn ystod y dydd, dylai rheolwyr y wardiau a/neu'r nyrsys â gofal dros y wardiau dderbyn y rhain.</li> <li>Dylai unrhyw broblemau gydag asiantaethau ar fframwaith y Priory gael eu hadrodd i'r Cyfarwyddwr Prosiectau, sy'n rheoli'r fframwaith.</li> <li>Darperir amlinelliad o ofynion Cefn Carnau ar gyfer yr asiantaethau penodol a ddefnyddir, e.e.</li> </ul>	Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty wedi ysgrifennu at bob asiantaeth a ddefnyddir yn rheolaidd erbyn 18 Awst 2015. Rhoddwyd copi ar ffeil.	Cyfarwyddwr yr ysbyty		18.08.15	18.08.15

Canlyniad/ Safon	Sylwadau Ychwanegol/ Tystiolaeth	Cam Gweithredu	Cynnydd Hyd yn Hyn	Gan bwy	Coch, Oren, Gwyrdd	Amserlen ar gyfer Cwblhau	Dyddiad y'i cwblhawyd
		<p>cymwysterau'n ymwneud ag anableddau dysgu / profiad / hyfforddiant diweddaraf ar Atal a Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol (PMVA) / ymwybyddiaeth o Gymorth Ymddygiadol Cadarnhaol (PBS), ac ati.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod pob nyrs asiantaeth yn cwblhau rhestr wirio'r Priory ar gyfer nyrsys asiantaeth gyda'r nyrs â gofal yn ystod y sifft (neu sy'n gorffen y sifft) wrth gyrraedd. Bydd y rhestrau gwirio'n cael eu storio'n ganolog. Bydd cyfarwyddwr yr ysbyty'n eu hadolygu bob wythnos gan groeswiro yn erbyn y rotâu er mwyn sicrhau bod pob nyrs wedi cael hyfforddiant sefydlu, a bydd yn cymryd camau ar unwaith os oes unrhyw ddiffygion. Fodd bynnag, mae prosesau cadarn wedi'u sefydlu erbyn hyn.</li> </ul>					
<b>Safon</b>							
21 (1) (a) a (b)	Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gan y staff asiantaeth	1. Fel y nodir uchod, ond gan gynnwys staff banc.	Llythyrau wedi'u hysgrifennu i'r staff banc gan hysbysu o anghenion/cymhwysedd hyfforddiant sy'n ofynnol.	Cyfarwyddwr yr ysbyty		23.08.15	18.08.15
		2. Rheolwr Gwasanaethau Clinigol i sicrhau bod pob aelod	Mae'r broses wedi'i sefydlu.	Rheolwr Gwasanaethau		18.08.15	18.08.15



Canlyniad/ Safon	Sylwadau Ychwanegol/ Tystiolaeth	Cam Gweithredu	Cynnydd Hyd yn Hyn	Gan bwy	Coch, Oren, Gwyrdd	Amserlen ar gyfer Cwblhau	Dyddiad y'i cwblhawyd
	a'r staff banc y sgiliau a'r profiad hanfodol i weithio yn yr ysbyty. Ymdriniwyd â'r camau gweithredu ar gyfer staff asiantaeth yn y cam uchod, felly mae'r camau gweithredu hyn yn perthyn i'r staff banc sy'n gweithio yn y Priory hefyd.	newydd o staff, gan gynnwys staff banc, yn cwblhau hyfforddiant sefydlu tîm nyrsio'r Priory, a bod copi'n cael ei ffeilio yn y ffeil adnoddau dynol.	Mae cyfarwyddwr yr ysbyty'n dilyn proses fonitro trwy ddewis ar hap er mwyn sicrhau cydymffurfiad. Hysbysir y cyfarfod llywodraethu clinigol ynglŷn â'r canfyddiadau.	Clinigol			
		3. Staff banc i gwblhau a dilyn modiwlau hyfforddi Sylfeini ar gyfer Twf er mwyn aros ar y rhestr banc.	Y broses fonitro wedi'i sefydlu.	Cyfarwyddwr yr ysbyty		18.08.15	18.08.15
		4. Hyfforddiant sefydlu i gynnwys Atal a Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol (PMVA), gan ddeall gofynion ysbytai diogelwch isel a gofynion cyfreithiol sylfaenol y Ddeddf Iechyd Meddwl. Bydd hyn yn cael ei gofnodi yn ffeil gynefino'r staff asiantaeth.		Cyfarwyddwr yr ysbyty		18.08.15	18.08.15